Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS

Ysgrifennydd Gwladol Cymru

22 Gorffennaf 2020

Annwyl Ysgrifennydd Gwladol,

Ymateb ariannol i Covid-19

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 13 Gorffennaf 2020 i drafod ymateb ariannol Llywodraeth y DU i bandemig COVID-19. Yn anffodus, yn ystod y sesiwn, nid oedd gennym amser i drafod holl gwestiynau'r Aelodau ac felly, byddwn yn ddiolchgar am eich ymateb i'r materion a nodir isod. Yn ogystal, mae nifer o faterion eraill yr hoffwn gael eglurhad arnynt.

- *Sut y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu newid targedau dyled cyffredinol a sut y mae'n asesu ac yn rheoli risgiau cyllidol wrth ymateb i COVID-19? Pa mor sylweddol yw'r risg gyllidol o ran rheoli dyled is-genedlaethol fel rhan o hyn?*
- *Beth yw prif bryderon Llywodraeth y DU ynghylch risg gyllidol a dyled yng Nghymru? Sut y mae'n ystyried y darlun cyfanredol o'r amlygiad i ddyled gyhoeddus, gan gynnwys dyled gyffredinol, rhwymedigaethau digwyddiadol a gwarantau benthyciad, ar gyfer sefydliadau'r sector cyhoeddus ehangach fel llywodraeth leol?*
- *Sut y mae Llywodraeth y DU yn ystyried yr effaith ar wledydd datganoledig wrth wneud penderfyniadau, yn enwedig ynghylch polisïau i lacio'r cyfyngiadau symud ac effaith ariannol y penderfyniadau hynny ar wledydd eraill y DU?*

Diweddariad economaidd yr haf y Canghellor

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch y cyfrifiadau mewn perthynas â'r cyhoeddiad a wnaed gan y Canghellor y byddai diweddariad economaidd yr haf yn rhoi £500 miliwn o gyllid COVID-19 ychwanegol i Lywodraeth Cymru drwy Fformiwla Barnett. Dywedodd Llywodraeth y DU ei bod bellach yn darparu £2.8 biliwn i helpu Llywodraeth Cymru i gefnogi unigolion, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus drwy argyfwng COVID-19. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wedi dweud yn gyhoeddus bod Llywodraeth Cymru dim ond yn cael £12.5 miliwn o gyllid canlyniadol o ganlyniad i ddiweddariad economaidd yr haf.

Yn amlwg, mae'r Pwyllgor yn pryderu am y safbwyntiau gwahanol rhwng y ddwy Lywodraeth ynghylch cyfrifo'r setliad i Gymru. Fe wnaethoch gefnogi'r ffigurau a gyhoeddwyd gan y Canghellor a chytuno i ofyn i Drysorlys ei Mawrhydi a fyddai'n bosibl iddo rannu ei gyfrifiadau â'r Pwyllgor.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd i ofyn iddi rannu cyfrifiadau Llywodraeth Cymru.

Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod ansicrwydd sylweddol ynghylch y sefyllfa ar ôl diwedd cyfnod pontio'r UE, a bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru gynllunio ar gyfer nifer o senarios posibl. Mae gan Lywodraeth y DU rôl bwysig i sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru ddigon o adnoddau drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (y Gronfa).

Mae hyn wedi bod o ddiddordeb i'r Pwyllgor Cyllid ers cryn amser. Ym mis Medi 2018, gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad, **sef y paratoadau ar gyfer disodli ffrydiau cyllido'r Undeb Ewropeaidd yng Nghymru**. Ar y pryd, ychydig iawn o wybodaeth oedd ar gael gan Lywodraeth y DU am fanylion a dyraniad y Gronfa. Gwnaethom argymell y dylai Llywodraeth Cymru reoli a gweinyddu cyfran Cymru. Mae'n siomedig, bron i ddwy flynedd yn ddiweddarach, nad oes gennym syniad clir o hyd ynghylch sut y bydd y Gronfa hon yn cael ei dyrannu neu ei gweinyddu.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r amserlen a'r bwriadau o ran rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru a'r llywodraethau datganoledig eraill am fanylion y Gronfa.

Datganoli Cyllidol

Fel y gwyddoch, ar hyn o bryd rydym yn cynnal ymchwiliad i **weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol.** Bydd yr ymchwiliad yn ystyried ymwybyddiaeth y cyhoedd o ddatganoli cyllidol a threthiant yng Nghymru. Yn ogystal, bydd yn ystyried y fframwaith cyllidol a sut mae cysylltiadau rhynglywodraethol yn gweithio rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Ysgrifennais atoch ar 1 Gorffennaf 2020 i'ch gwahodd i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ac i roi tystiolaeth lafar yn nhymor yr hydref. Edrychwn ymlaen at glywed rhagor gennych ynglŷn â'r mater hwn maes o law.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid